petha Caernarfon

Buddion, nodweddion a chyfraddau hysbysebu

petha Caernarfon

Rydym yn cynnig dau becyn hysbysebu ym Mhetha Caernarfon:

➔Mae ein cyfrif **sylfaenol** yn costio £295 i'w sefydlu, ac mae ffi adnewyddu flynyddol o £145
➔Mae ein cyfrif **premiwm** yn costio £495 i'w sefydlu, ac mae ffi adnewyddu flynyddol o £195

Mae ein siart gymhariaeth sydyn isod yn dangos nodweddion bob pecyn. Eglurir nodweddion a buddion bob pecyn yn fwy manwl ar y tudalennau nesaf.

	Sylfaenol	Premiwm
Enw cwmni, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, oriau agor	✓	✓
Gall eich proffil ymddangos yn y nifer hyn o gategorïau:	1	3
Gall eich proffil gynnwys y nifer hyn o ddolenni (i'ch gwefan, eich blog, ayb):	1	3
Nifer o eiriau allweddol a ganiateir	1	5
Logo eich cwmni wedi'i arddangos ar eich proffil	✓	✓
Arddangos hyd at 5 delwedd arall ar eich proffil	✘	✓
Nifer y dogfennau y gellir eu llawr lwytho ar eich proffil	1	3
Gallwch ddisgrifio eich busnes yn y nifer hyn o eiriau ar eich proffil:	150	300
Gosod fideo ar eich proffil	✘	✓
Ychwanegu Twitter i'ch proffil	✘	✓
Gosod map Google, yn dangos lleoliad eich busnes, ar eich proffil	✘	✓
Ychwanegu eich digwyddiadau i'n tudalen ddigwyddiadau	✓	✓
Y nifer o weithiau byddwn yn hyrwyddo eich busnes yn ein taflen newyddion:	4	12
Logio i mewn i'n blog fel awdur, a hyrwyddo eich busnes pryd bynnag yr hoffech	✘	✓
Ffi sefydlu unigryw	**£295**	**£495**
Ffi adnewyddu flynyddol (blwyddyn 2 ymlaen)	**£145**	**£195**

Tudalen nesaf: egluro nodweddion y pecyn ➔

Hysbysebu
Egluro nodweddion y pecyn

petha Caernarfon

Categorïau

Gall hysbysebwyr ddewis pa gategorïau ac is-gategorïau mae eu busnes yn ymddangos ynddynt (os nad oes is gategori ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch busnes, gadewch i ni wybod, ac fe wnawn ni greu un ar eich cyfer). Er enghraifft, gallai cwmni o gyfreithwyr ymddangos yn y categori gwasanaethau, ond os ydynt hefyd yn darparu gwasanaethau cyfreithiol masnachol, gallent hefyd ymddangos yn y categori busnes i fusnes.

Gall deiliaid cyfrifon sylfaenol ymddangos mewn un is-gategori yn unig. Gall deiliaid cyfrifon premiwm hysbysebu mewn hyd at dri is-gategori.

Dolenni

Un o fuddion hysbysebu ar Petha Caernarfon yw y gallwch adeiladu dolenni gwerthfawr i'ch gwefan eich hun, eich blog, eich Facebook neu dudalen rhwydweithio cymdeithasol arall, neu eich proffil ar gyfeiriadur ar-lein. Mae hyn yn helpu i wella gweledegd eich gwefan ar beiriannau chwilio, ac mae'n helpu ymwelwyr â Petha Chaernarfon i ddarganfod mwy am eich busnes.

Gall deiliaid cyfrifon sylfaenol arddangos un ddolen ar eu proffil. Gall deiliaid cyfrifon premiwm arddangos hyd at dair dolen – felly gallwch greu dolen i'ch gwefan, eich blog, neu unrhyw wefan arall o'ch dewis chi.

Geiriau allweddol

Mae adeiladu dolenni dwfn i dudalennau ar eich gwefan, gan ddefnyddio geiriau allweddol megis "testun angor ", yn helpu peiriannau chwilio i ddeall beth yw pwrpas eich gwefan a gwella perfformiad eich gwefan mewn tudalennau canlyniadau peiriannau chwilio. Gyda'n nodwedd geiriau allweddol, gallwch greu dolenni dwfn ar gyfer cynhyrchion penodol neu wasanaethau ar eich gwefan.

Gyda chyfrif sylfaenol Petha Caernarfon gallwch arddangos un gair allweddol dolen-ddofn ar eich proffil. Gyda chyfrif premiwm, gallwch arddangos hyd at bum gair allweddol.

Delweddau

Gall bob hysbysebwr arddangos logo eu cwmni ar eu proffil. Fodd bynnag, gall deiliaid cyfrifon premiwm hefyd ychwanegu hyd at bum delwedd arall – er enghraifft lluniau o gynhyrchion, gweithwyr, blaen y siop, cipolwg o'ch gwefan, ayb.

Dogfennau

Gall bob hysbysebwr ychwanegu dogfennau PDF y gellir eu llawr lwytho i'w proffiliau. Gall dogfennau gynnwys bwydlenni, rhestr brisiau, taflenni gwerthiant, talebau arian i ffwrdd, neu unrhyw ddogfen arall y gellir ei gadw ar ffurf PDF. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn i ymwelwyr â'ch proffil – er enghraifft, os ydych yn hysbysebu tŷ bwyta, efallai yr hoffai ymwelydd weld eich bwydlen cyn ffonio i neilltuo bwrdd.

Os nad oes gennych unrhyw ddogfennau PDF, a hoffech i ni greu un ar eich cyfer, cysylltwch â ni i ddweud beth yw'ch gofynion, ac fe wnawn ni baratoi pris ar eich cyfer.

Fideo

Gall proffiliau premiwm gynnwys un fideo, wedi'i fewnosod o wasanaeth lletya fideo fel YouTube, Vimeo neu MySpace.

Twitter

Os ydych yn defnyddio Twitter, gallwn ychwanegu'r swyddogaethau Twitter canlynol i'ch tudalen proffil Petha Caernarfon:

- Dolen "follow me" i'ch proffil Twitter
- Dolen "Tweet this"—gall ymwelwyr â'ch tudalen Petha Caernarfon glicio'r ddolen hon i ddiweddaru eu statws Twitter eu hunain i ddweud "darllen proffil [eich cwmni] ar Petha Caernarfon —[dolen]"
- Ffîd Twitter sy'n dangos yn awtomatig eich diweddariad statws
- diweddaraf ar Twitter.

Mae'r nodwedd Twitter ar gael i ddeiliaid cyfrifon premiwm yn unig.

Map Google

Mae proffiliau premiwm yn cynnwys map Google wedi'i fewnosod, i helpu ymwelwyr i ddod o hyd i'ch busnes.

Os oes gennych broffil Busnes Lleol Google, fe wnawn ni'n siŵr fod y map Google ar eich tudalen Petha Caernarfon yn cysylltu i'ch proffil Google.

Digwyddiadau

Gall bob hysbysebwr ychwanegu eu digwyddiadau - er enghraifft gwerthiant, diwrnodau agored ayb - i'n tudalen digwyddiadau unrhyw bryd.

Taflen Newyddion

Gall ymwelwyr â Petha Caernarfon ddewis i danysgrifio i'n taflen newyddion misol os hoffent gael eu cadw'n ddiweddar gyda'r hyn sy'n mynd ymlaen yng Nghaernarfon.

Mae bob hysbysebwr yn cael y cyfle i roi eu newyddion diweddaraf i'w gyhoeddi yn ein taflen newyddion.

Gall deiliaid cyfrifon sylfaenol gyhoeddi pedwar stori newyddion y flwyddyn yn y daflen newyddion, ond gall deiliaid cyfrifon premiwm gyhoeddi hyd at ddeuddeg stori'r flwyddyn.

Blog

Os dowch chi'n hysbysebwr premiwm ar Petha Caernarfon, fe rown ni enw defnyddiwr a chyfrinair i chi ar gyfer ein blog, fel y gallwch sefydlu proffil awdur ac ychwanegu eich datganiadau i'r wasg, darnau mynegi barn ac erthyglau eraill eich hun i'n blog pryd bynnag a fynnwch.

Tudalen nesaf: y buddion o hysbysebu ar Petha Caernarfon ➔

- Gwerth ardderchog am arian - gall hysbysebion mewn papurau newydd lleol gostio cannoedd o bunnoedd ond fel arfer dim ond yn para am wythnos. Am gyn lleied â £295, gallwch hysbysebu ar Petha Caernarfon drwy'r flwyddyn, a chael eich darganfod gan dwristiaid yn ogystal â chwsmeriaid lleol. Ac oherwydd bod ein safle yn ddwyieithog, fe gewch ddwy dudalen broffil - un yn Gymraeg ac un yn Saesneg.

- Mae cyfieithu eich proffil yn rhan o'r gost sefydlu - nid yw'n costio unrhyw beth yn ychwanegol i chi, a 'does dim gwaith ychwanegol i chi chwaith.

- Gwella'r traffig i'ch gwefan a'ch gweledegdd mewn peiriannau chwilio - mae geiriau allweddol gyda dolenni dwfn yn helpu ymwelwyr a pheiriannau chwilio i ddod o hyd i'ch gwefan.

- Os nad oes gennych wefan yn barod, bydd eich proffil Petha Caernarfon yn eich helpu i greu presenoldeb effeithiol a phroffesiynol ar y we am bris rhatach na'r cwmnïau creu gwefannau cyffredin.

- Helpu preswylwyr Caernarfon, twristiaid ac ymwelwyr i ddod o hyd i chi – a dod o hyd i'ch manylion cyswllt a'ch oriau agor.

- Gallwn sicrhau bod eich tudalen proffil yn rhydd o hysbysebion, felly nid oes unrhyw beth i dynnu sylw ymwelwyr oddi ar fanylion eich cwmni.

- Dewiswch y categorïau a'r is-gategorïau yr hoffech hysbysebu ynddynt. Os nad yw'ch is gategori dewisol yn ymddangos ar y safle eisoes, fe wnawn ni greu un ar eich cyfer.

- Gall dogfennau y gellir eu llawr lwytho ehangu eich proffil o sawl tudalen, gan ychwanegu hyd yn oed mwy o werth am arian. Er enghraifft, gallwch gynnwys eich llyfryn corfforaethol yn eich dogfennau i'w llawr lwytho. Mae'r gost o letya eich dogfennau wedi'i gynnwys yn y ffi sefydlu - nid yw'n gost ychwanegol.

- Darlledu newyddion eich cwmni yn ein taflen newyddion misol - gall deiliaid cyfrifon sylfaenol gynnwys eu newyddion yn ein taflen newyddion bedair gwaith y flwyddyn, a deiliaid cyfrifon premiwm 12 gwaith y flwyddyn.

- Gall deiliaid cyfrifon premiwm hefyd hyrwyddo eu busnesau unrhyw bryd trwy bostio eu darnau mynegi barn, newyddion, datganiadau i'r wasg ac erthyglau eraill ar ein blog. Gallwch ychwanegu eich delweddau a'ch fideos i'ch postiau blog, ac ymgysylltu gydag ymwelwyr â'r blog trwy ateb unrhyw sylwadau bydd eich postiau'n eu derbyn.

- Bod yn rhan o'r ffenomen Twitter - bydd eich proffil premiwm yn cynnwys dolen "follow me" i'ch tudalen Twitter, dolen "Tweet this", a ffîd sy'n cael ei ddiweddaru'n awtomatig yn dangos eich cofnod Twitter diweddaraf.

- Mae'r cwmni y tu ôl i Petha Caernarfon yn dod o dan berchnogaeth, ac yn cael ei reoli gan weithwyr marchnata proffesiynol profiadol a chymwys. Y tu ôl i'r llenni, rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo Petha Caernarfon a dod ag ymwelwyr i'r safle.

- Byddwch y cyntaf i wybod am nodweddion newydd sy'n cael eu hychwanegu i Petha Caernarfon, trwy ein taflen newyddion i aelodau.

- Fe wnawn ni eich cefnogi ar hyd y ffordd - os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen unrhyw gymorth, anfonwch e-bost atom.

Tudalen nesaf: sut i ddod yn hysbysebwr ➔

1

Penderfynwch a fyddai'n well gennych chi gael cyfrif sylfaenol neu gyfrif premiwm.

- Mae cyfrif sylfaenol yn costio £295 i'w sefydlu, a phob blwyddyn ar y dyddiad y crëwyd y cyfrif, bydd ffi adnewyddu o £145.

- Mae cyfrif premiwm yn costio £495 i'w sefydlu, a phob blwyddyn ar y dyddiad y crëwyd y cyfrif, bydd ffi adnewyddu o £195.

2

Llenwch y ffurflen ymholi hysbysebu yn http://www.petha-caernarfon.co.uk/ymgeisio.html

3

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen ymholi, fe wnawn ni anfon y dogfennau canlynol atoch trwy'r e-bost:

- Ffurflen gais ar gyfer y pecyn hysbysebu o'ch dewis chi
- Anfoneb ar gyfer y ffi sefydlu

4

Ar ôl i'ch taliad glirio, fe wnawn ni sefydlu eich proffil gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen gais. Fe gewch chi gyfle i gael rhagolwg o'ch proffil cyn iddo fynd yn fyw, a gwneud newidiadau os bydd angen. Fe wnawn ni eich cefnogi drwy'r broses gyfan - os bydd gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch ar bob cyfrif.

5

Unwaith bydd eich proffil yn fyw, fe wnawn ni ei hyrwyddo:

- Fe wnawn anfon diweddariadau, gyda dolenni, i'n dilynwyr Twitter
- Fe wnawn ni ddiweddaru ein blog gyda dolenni i'ch proffiliau
- Fe wnawn ni gynnwys dolenni i'ch proffiliau yn y rhan "aelodau newydd" o'r daflen newyddion nesaf sy'n cael ei hanfon at ein tanysgrifwyr